Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

13 Tachwedd 2023

Annwyl Peredur,

Ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brisiad tair blynedd Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a gafodd ei adrodd ddechrau mis Hydref 2023.

Byddwch wedi nodi, yn y Gyllideb Ddrafft a osodwyd, fod y Comisiwn wedi awgrymu bod disgwyl i brisiad pensiwn tair blynedd staff y Comisiwn gael ei gwblhau yn fuan, yn ogystal â gwneud ei argymhellion. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd unrhyw ragdybiaethau wedi'u gwneud o fewn y gyllideb ddrafft ar gyfer unrhyw gost ychwanegol am godi costau pensiwn yn unol â phroses y gyllideb a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddefnyddio cyfraddau cyfraniadau presennol. Nodwyd hefyd, o ystyried pa mor dynn yw'r gyllideb, y tebygolrwydd y bydd cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr gyda chyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Drysorlys Ei Fawrhydi y DU ar gyfer y cynnydd, y byddai angen i ni baratoi cais am gyllideb atodol ar ddechrau 2024-25 pe bai cynnydd.

Canlyniad y prisiad yw bod y cynllun pensiwn yn symud i gyfradd safonol o 28.97 y cant ar gyfer yr holl staff ac mae wedi arwain at amcangyfrif cost ychwanegol o tua £280,000 i'r Comisiwn ar gyfer y flwyddyn nesaf, 2024-25. Mae'r gost derfynol yn dibynnu ar union nifer y staff ar adeg cyfrifo'r cais. Mae Trysorlys EF, yn ôl y disgwyl, wedi cadarnhau y bydd pob Cyflogwr sydd â chostau staff a ariennir yn ganolog, y mae'r Comisiwn yn un ohonynt o dan y diffiniad, yn cael cyllid ychwanegol i dalu am y gost uwch. Mae'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF ar y mater hwn ar gael yn **https://questions-statements.parliament.uk/written-statements/detail/2023-03-30/hcws697**

Bydd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol, 2025-26, yn cael ei pharatoi gyda'r cyfraddau cyfraniad cyflogwr wedi'u diweddaru.

Gallaf gadarnhau felly y bydd angen i'r Comisiwn baratoi cais am gyllideb atodol i allu cael gafael ar yr arian ychwanegol a fydd, fel y deallwn, yn cael ei ddarparu i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

yn anffodus yn enghraifft o sut mae amseriad ein proses ar gyfer y gyllideb yn arwain at ddiffyg gwybodaeth i baratoi cyllidebau cywir a lleihau'r baich gweinyddol ychwanegol ar gyfer yr holl Gomisiwn a Chronfa Gyfunol Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y mater penodol hwn, mae croeso ichi gysylltu â mi, neu'r Comisiwn ei hun.

Yn gywir



Ken Skates AS

copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi, Kate Innes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English